

# #DiwrnodVQ #VQDay



## Ymgyrch #DiwrnodVQ ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Y llynedd daeth pobl ledled Cymru ynghyd i ddathlu Cymwysterau Galwedigaethol, ac roedd y cyfan yn llwyddiant mawr! Diolch i'ch holl gynnwys chi yn ystod #DiwrnodVQ, cymwysterau galwedigaethol oedd un o'r PRIF bynciau trafod ar Twitter, a chyrrhaeddwyd miloedd o unigolion.

Ar **15 Mai** byddwn yn cynnal **Ymgyrch #DiwrnodVQ ar y Cyfryngau Cymdeithasol** unwaith eto, drwy sicrhau bod ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol yn llawn dop o negeseuon a straeon am gymwysterau galwedigaethol. Rydym yn awyddus i ysbrydoli pobl a rhoi gwybod iddyn nhw am y cyfleoedd gwyh y mae cymwysterau galwedigaethol yn eu rhoi i bobl a busnesau ledled y wlad, ac **mae angen eich cymorth chi arnom ni** i wneud hynny!

Ymunwch â'r sgwrs yn ystod #DiwrnodVQ gan lenwi eich sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'ch cynnwys chi ar gyfer #DiwrnodVQ. Mae gennym rywfaint o syniadau i arbed adnoddau, a byddwn yn anfon fframiau hunlun at y rheini sy'n gyfrifol am gcontract ym mhob coleg/lleoliad dysgu seiliedig ar waith. Bydd y rhain yn gymorth ichi greu cynnwys.

## Enghraifft o weithgarwch

- Annog dysgwyr i greu cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol am gymwysterau galwedigaethol (postio negeseuon, blogiau ac ati).
- Cyhoeddi dyfyniadau gan ddysgwyr a staff am gymwysterau galwedigaethol / atebion i'n cwestiynau ni ynghyd â lluniau ohonyn nhw'n dal ffrâm hunlun #DiwrnodVQ.
- Ffilmio dysgwyr a staff yn trafod manteision Cymwysterau Galwedigaethol a'u cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio'r hashnod #DiwrnodVQ.
- Trefnu slotiau ar y cyfryngau lleol/cenedlaethol ac/neu ar y radio i gyd-fynd â'r gweithgarwch.

## Cwestiynau i ddysgwyr er mwyn annog trafodaeth ar-lein

- Pam wnest ti benderfynu dilyn Cymhwyster Galwedigaethol?
- Pam fod Cymwysterau Galwedigaethol mor dda?
- Petaet ti'n gorfod disgrifio dy brofiad o hyfforddiant galwedigaethol mewn tri gair, beth fydden nhw?
- Sut mae hyfforddiant galwedigaethol wedi newid pethau i ti? e.e. ydy'r hyfforddiant wedi rhoi mwy hyder iti, wedi newid dy syniadau di ynghylch yr hyn yr hoffet ti ei wneud, neu wedi agor drysau iti?
- Pa heriau rwyd ti wedi'u goresgyn cyn/yn ystod/ar ôl cael hyfforddiant galwedigaethol?
- Beth yw'r cam nesaf i ti?
- Fyddet ti'n argymhell Cymwysterau Galwedigaethol i bobl eraill?

Fe allwch chi naill ai gyhoeddi negeseuon o'ch cyfrifon eich hun, a byddwn ninnau'n eu hail-bostio o'n rhai ni, neu fe allwch chi anfon cynnwys i ni i'w hyrwyddo'n uniongyrchol o'n cyfrifon ni.

## Cwestiynau i diwtoriaid, colegau a darparwyr

- Sawl Cymhwyster Galwedigaethol ydych chi'n eu darparu bob blwyddyn a beth yw'r cwrs mwyaf poblogaidd?
- Faint o bobl sy'n cael swyddi drwy wneud cyrsiau galwedigaethol?
- Beth yw manteision cymwysterau galwedigaethol i ddysgwyr a chyflogwyr?

Mae gennym hefyd becyn adnoddau defnyddiol, sy'n cynnwys graffeg y gallwch chi'i ddefnyddio i ddangos eich cefnogaeth. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Hannah drwy ffonio **03000 253535** neu e-bostiwch **info@VQDay.wales**